# Wylfa Decommissioning Site Report

## Site Stakeholder Group Meeting
## 10 February 2022


## Stuart Law
## Site Director




## Site Director's Summary (October 2021 – February 2022)

### Covid-19

As we have seen Covid-19 rates at the highest level since the start of the pandemic (figures in the area were 2016 in every 100,000 people in Wales), we have continued Lateral Flow Testing (LFT) on site as we were aware of some difficulties in obtaining LFT test kits. The site continues to work with 2m social distancing guidelines.

### Safety performance

Total recorded incident rate (TRIR): 0.00

Days away case rate (DACR): 0.00

No of days since a lost time accident: 274

Return to work safety stand down for staff and contractors took place after the Christmas and New Year break which included the re-launch of Human Performance tools.

### People

At the end of last year Wylfa staff completed training sessions on "Becoming a project focused organisation". The training informed staff on the programme of work to be undertaken on site.

A roadshow was held on site by the Cyber Security & Information Assurance (CS&IA) team and the Smarter Working Technology Workstream. Both teams had a market stall setup in an open (and Covid-19 secure) space for staff to go along and ask questions.

During the roadshow the CS&IA team engaged with staff regarding cyber security and information assurance, highlighting their key strategic aims for the business and engaging with staff around important cyber security and information assurance topics.

The Smarter Working Technology team continue to support staff in adopting new technology and "What will Smarter Working Technology do for me?". They also presented the findings of their user research interviews and workshops in addition to giving demonstrations of some of the Microsoft productivity and collaboration tools they are planning to roll out to the workforce.

### Reviews and visits

At the end of September 2021, the Magnox Executive carried out an annual review of the site Management Summary Schedule (MSS). Paul Winkle, Chief Operating Officer, and Gordon Frisby, Chief Financial Officer, came to site and were joined remotely by 20 or so other individuals from various functions across the company to carry out the review. A good open discussion was held around the site's progress thus far, the work we intend to do over the next two to three years and how this lined up with our three-year business plan.

In November 2021 the HR Director John Vickerman visited Wylfa to meet groups of staff and had a site tour.

## Infrastructure Removal

The site is currently removing legacy items from:

- North Active Control Point
- Heysham Building
- Fire Station
- Portable Buildings
- R1 and R2 11' and 18' levels

Re-useable equipment is being shared across the NDA estate and the pictures below show equipment being loaded for transport to Sellafield for re-use.





We have also donated equipment to the fire service.


### Site progress and achievements

Work is progressing well albeit adhering to Covid-19 rules. Here are some highlights:

## Waste Projects

### ILW Characterisation MCI Phase 2 – Flask Filling Area (FFA) trough update


Progress has been made on the development of the bespoke tooling required for this project. The sketches below of the trough highlight the inhospitable location this work entails.



With the dose implications in mind, a characterisation scope has revolved around taking some intrusive samples from the element discharge pipe work and the trough's false floor, followed by carrying out inferred characterisation of the bottom of the trough, including the filter.

The project team successfully developed bespoke sampling equipment which initially entailed cutting coupons out of the false floor for off-site analysis, prior to lifting the floor clear leaving an unobstructed view of the bottom of the trough. The Waste Project Engineering team developed the equipment assisted by local firm, BICO Engineering who manufactured components for the tooling. The team were able to obtain a Certificate of Conformity known as 'CE' marking for the bespoke tooling to substantiate its use.








Metal coupons were taken from the false floor enabling the false floor to be lifted clear of the trough. We have carried out medium resolution gamma spec deployment and full laboratory analysis is underway to understand disposal options. This was a significant achievement for the team,

## Plant and Structures

### Turbine Hall islanding

The current strategy for delivering the Plant and Structures scope at Wylfa identifies two key projects:

- The Electrical Overlay System (EOS)
- Turbine Hall Work Pack 3 - ACM removal, de-plant and demolition of the turbine hall and its ancillary buildings.

The new Electrical Overlay System remains essential to moving electrical supplies away from the turbine hall. To provide an "islanded" turbine hall to a principal contractor there is a need for an extensive campaign of isolations, involving cable cutting to air gap services into and out of the turbine hall which will become the 'construction site'.

Prior to undertaking an extensive de-cabling exercise, a large package of enabling work needs to be undertaken to ensure the continuity of decommissioning and business essential supplies and services throughout and beyond the de-cabling period. Recent work has identified the extent of the enabling work required which has led to this large package of work namely 'Turbine Hall Islanding'.

### Electrical overlay project

The EOS project team under the 'One Team' approach is progressing well and holding on to its critical path status. 'On Site Distribution Scope', is now deep into the Invitation to Tender (ITT) period and we have facilitated several site visits as well as responding to technical queries with potential suppliers. Tender evaluations have taken place and the contract will be awarded in early 2022.



Trees have been cleared as per ecology report.



415V Rationalisation Scope - new cabling installed between the Essential Services Board and Reactor Services Board (glanded ready for termination January 2022)

### Infrastructure Removal Project

### Heysham building

Approximately 5.5 tonnes of out-of-scope waste has been removed from the building. Air gapping of service is to commence over the next few months for a target demolition date of June 2022.







## Maentwrog Operations

Rainfall between 01 August 2021 and 31 January 2022 was 1077.3 mm.

Renewable electricity generation during the same period was 34.0-Gigawatt hours, against the target of 33 gigawatt hours.

## Magnox Socio-economic Scheme update

### This financial year Magnox has funded £151,001 in our local communities surrounding Wylfa, with a further £125,000 direct NDA funding.

**Menter Amlwch** has been successful in receiving £50,000 Magnox funding for a new role of Business Manager over 18 months, after which the role will be self-sustainable. The Business Manager will support Y Llofft in Amlwch Port to develop into a quality cafe/bistro, establish and manage the community hub/ repair café and support and develop community initiatives and new projects.

### Amlwch Community Company shop

In 2017, Amlwch Community Company received £717 Magnox funding for signage and shop fittings to help the volunteers set up a community shop. The shop has since gone from strength to strength and has expanded to larger premises. Magnox contributed £1,000 towards the purchase and installation of a new upvc door and windows. This was a requirement for improving ventilation and increasing the safety of volunteers and customers and allowing a one-way system to adhere to covid-19 regulations.

### Supporting the young members in our local communities through the good neighbour level funding

It's great to see so many youngsters encouraged to keep active and participate in team sports, giving huge benefits socially, physically and for their mental health and wellbeing. Magnox have recently supported Cemaes Bay Football Club junior section to purchase additional training equipment; Trearddur Bay Football Club juniors purchased Magnox branded training jackets, and Llanfair PG's Derwin junior football team also purchased Magnox branded winter training kits.



*Cemaes FC juniors*




### NDA direct funding:

**Menai Science Park (MSParc)** were awarded £375,000 over three years to support three new roles within the Egni Economic Improvement Project - A Nuclear Sector Development Officer, Energy STEM Outreach Project Development Officer and a Low Carbon Sector Development Officer.

The three new posts will provide the capacity to facilitate and boost economic and research opportunities across the region. This project also includes the development of a STEM outreach programme, to be run in partnership with STEM Gogledd.

**Grŵp Llandrillo Menai (GLLM), LabSTEM**
LabSTEM is a £2.2m project to refurbish, upgrade and extend STEM laboratories. GLLM received £386,034 NDA funding to assist with creating three newly equipped laboratories in a repurposed space on the Llangefni Campus, six science laboratories between Pwllheli and Dolgellau campuses and one STEM workshop at Dolgellau's Marian Mawr site. Work on the Llangefni campus will be completed later this year.

**Update on previously funded projects:**

**Menter Môn, Morlais Tidal Energy Project** have received a total of £900,000 funding from the NDA since 2016. In December 2021 the project reached a significant milestone, receiving planning consent approval from Welsh Government, allowing the construction phase to commence on land in preparation for work offshore and securing the marine licence from Natural Resource Wales.

Gerallt Llewelyn Jones, Director of Morlais, said: "We are delighted to have secured consent from Welsh Government to deliver Morlais. The decision comes after many years of hard work and consultation, we're now looking forward to moving to the next phase and to ensuring it can become a reality.

"From day one our aim has been to make sure that this project brings local economic benefits in terms of jobs, training and supply chain opportunities. Morlais is owned and run locally – this means we will ensure those benefits come right back into our local communities, we could not have reached this stage without the continued support from Magnox and the NDA."

**For more information and the latest news from Wylfa, visit:**

https://www.gov.uk/government/collections/our-sites
https://twitter.com/magnoxsites
https://www.linkedin.com/company/magnox
https://www.flickr.com/photos/magnoxsites

# Adroddiad Datgomisiynu Safle Wylfa

## Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle
## 10 Chwefror 2022

Stuart Law
Cyfarwyddwr Safle



## Crynodeb y Cyfarwyddwr Safle (Hydref 2021 – Chwefror 2022)

### Covid-19
Gan ein bod wedi gweld cyfraddau Covid-19 ar y lefel uchaf ers dechrau’r pandemig (y ffigurau ar gyfer yr ardal oedd 2,016 ym mhob 100,000 o bobl yng Nghymru), rydym wedi parhau â Phrofion Llif Unffordd (LFT) ar y safle, oherwydd roeddem yn ymwybodol o rai anawsterau o ran caffael profion LFT. Mae'r safle yn parhau i gynnal canllawiau cadw pellter cymdeithasol o 2m.

### Perfformiad diogelwch
Cyfanswm y gyfradd digwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.00.

Cyfradd achosion diwrnodau i ffwrdd (DACR): 0.00.

Nifer o ddyddiau ers damwain colli amser: 274.

Cynhaliwyd cyfnod oedi at ddiben diogelwch ar gyfer staff a chontractwyr ar ôl gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, a oedd yn cynnwys ail-lansio offer Perfformiad Dynol.

### Pobl
Ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, cwblhaodd staff y Wylfa sesiynau hyfforddi ar “Ddod yn sefydliad sy’n canolbwyntio ar brosiectau”. Roedd yr hyfforddiant yn hysbysu'r staff am y rhaglen waith sydd i'w chyflawni ar y safle.

Cynhaliwyd sioe deithiol ar y safle gan y tîm Seiberddiogelwch a Sicrwydd Gwybodaeth (CS&IA) a’r Ffrwd Waith Technoleg Gweithio’n Gallach. Roedd gan y ddau dîm stondin mewn man agored (a diogel o ran Covid-19) a oedd yn galluogi staff i fynd draw i ofyn cwestiynau.

Yn ystod y sioe deithiol, ymgysylltodd y tîm CS&IA â staff ynghylch seiberddiogelwch a sicrwydd gwybodaeth, gan amlygu eu nodau strategol allweddol ar gyfer y busnes ac ymgysylltu â staff ar bynciau pwysig sy’n ymwneud â seiberddiogelwch a sicrwydd gwybodaeth.

Mae'r tîm Technoleg Gweithio'n Gallach yn parhau i gefnogi staff i fabwysiadu technoleg newydd a "Beth fydd Technoleg Gweithio'n Gallach yn ei wneud i mi?" Fe wnaethant hefyd gyflwyno canfyddiadau eu cyfweliadau a gweithdai ymchwil defnyddwyr, yn ogystal ag arddangos rhai o'r offer cynhyrchiant a chydweithredu *Microsoft* y maent yn bwriadu eu cyflwyno i'r gweithlu.

### Adolygiadau ac ymweliadau
Ar ddiwedd mis Medi 2021, cynhaliodd Gweithrediaeth Magnox adolygiad blynyddol o'r Rhestr Grynodeb Rheoli Safle (MSS). Daeth Paul Winkle, y Prif Swyddog Gweithredu, a Gordon Frisby, y Prif Swyddog Ariannol, i’r safle, ac ymunodd tua 20 o unigolion eraill o wahanol swyddogaethau ar draws y cwmni â nhw o bell i gynnal yr adolygiad. Cafwyd trafodaeth agored dda am gynnydd y safle hyd yma, y gwaith y bwriadwn ei wneud dros y ddwy neu dair blynedd nesaf a sut oedd hyn yn cyd-fynd â'n cynllun busnes tair blynedd.

Ym mis Tachwedd 2021, ymwelodd y Cyfarwyddwr AD, John Vickerman, â Wylfa i gwrdd â grwpiau o staff, a chafodd daith o amgylch y safle.

## Gwaredu Isadeiledd

Ar hyn o bryd, mae'r safle'n gwaredu'r eitemau etifeddol canlynol o:

- NACP
- Adeilad Heysham
- Yr Orsaf Dân
- Adeiladau cludadwy
- R1 a R2, lefelau 11' ac 18'

Mae offer ailddefnyddiadwy yn cael eu rhannu ar draws ystâd yr NDA, ac mae'r lluniau isod yn dangos offer yn cael eu llwytho i'w cludo i Sellafield i'w ailddefnyddio.




Yn ogystal, rydym ni wedi rhoi offer i'r gwasanaeth tân.


### Cynnydd a chyflawniadau'r safle

Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda, gan barchu rheolau Covid-19. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

## Prosiectau Gwastraff


### Nodweddu ILW Cam 2 MCI – Ardal Llenwi Fflasg (FFA) - diweddariad cafn

Mae cynnydd wedi'i wneud o ran datblygu'r offer pwrpasol sydd eu hangen ar gyfer y prosiect hwn. Mae'r brasluniau isod o'r cafn yn amlygu lleoliad anffafriol y gwaith hwn.



Gan ystyried y goblygiadau dos, mae'r cwmpas nodweddu wedi cynnwys cymryd rhai samplau ymwthiol o'r pibellau rhyddhau elfennau a llawr ffug y cafn, ac yna cynnal gwaith nodweddu tybiedig o waelod y cafn, gan gynnwys yr hidlydd.

Llwyddodd tîm y prosiect i ddatblygu offer samplu pwrpasol a oedd, i ddechrau, yn golygu torri cwponau allan o'r llawr ffug i'w dadansoddi oddi ar y safle, cyn codi'r llawr yn glir gan adael golygfa ddirwystr o waelod y cafn. Datblygodd tîm Peirianneg y Prosiect Gwastraff yr offer gyda chymorth cwmni lleol, sef *BICO Engineering*, a weithgynhyrchodd gydrannau ar gyfer yr offer. Llwyddodd y tîm i gael Tystysgrif Cydymffurfiaeth o'r enw marc 'CE' ar gyfer yr offer pwrpasol i gadarnhau eu defnydd.





Cymerwyd cwponau metel o'r llawr ffug gan alluogi'r llawr ffug i gael ei godi'n glir o'r cafn. Rydym wedi cynnal dadansoddiad cydraniad gama canolig ac mae dadansoddiad labordy llawn ar y gweill i ddeall yr opsiynau gwaredu. Roedd hyn yn gyflawniad arwyddocaol i'r tîm.




## Offer a Strwythurau

### Ynysu'r Neuadd Dyrbin

Mae'r strategaeth bresennol ar gyfer cyflawni'r gwaith Offer a Strwythurau yn Wylfa yn nodi dau brosiect allweddol:

- Y System Droshaenu Drydanol (EOS)
- Gwaith y Neuadd Dyrbin, Pecyn 3 – gwaredu ACM, gwaredu offer a dymchwel y neuadd dyrbin a'r adeiladau ategol

Mae'r System Droshaenu Drydanol newydd yn parhau i fod yn hanfodol o ran symud cyflenwadau trydanol i ffwrdd o'r neuadd dyrbin. Er mwyn darparu neuadd dyrbin wedi'i "hynysu" i brif gontractwr, mae angen ymgyrch gynhwysfawr o ynysiadau, gan gynnwys torri ceblau bylchau aer y neuadd dyrbin, a fydd yn datblygu i fod yn 'safle adeiladu'.

Cyn cynnal y gwaith torri ceblau cynhwysfawr, mae angen ymgymryd ag ymgyrch fawr o waith hwyluso er mwyn sicrhau cysondeb y cyflenwadau a'r gwasanaethau datgomisiynu a busnes hanfodol trwy gydol, a thu hwnt i'r cyfnod gwaredu ceblau. Mae gwaith diweddar wedi nodi maint y gwaith hwyluso sydd ei angen, sydd wedi arwain at y pecyn mawr hwn o waith, sef 'Ynysu'r Neuadd Dyrbin'.

## Prosiect Troshaenu Trydanol



Mae tîm prosiect y System Droshaenu Drydanol (EOS), gan ddilyn y dull 'Un Tîm', yn gwneud cynnydd da, gan gynnal ei statws llwybr critigol. Bellach, mae'r 'Cwmpas Dosbarthu Ar y Safle' yn ddwfn yn y cyfnod Gwahoddiad i Dendro (ITT), ac rydym wedi hwyluso sawl ymweliad safle, yn ogystal ag ymateb i ymholiadau technegol gan ddarpar gyflenwyr. Mae gwerthusiadau tendro wedi'u cynnal a bydd y contract yn cael ei ddyfarnu yn gynnar yn 2022.

Mae coed wedi eu clirio, yn unol â'r adroddiad ecolegol.



Cwmpas Rhesymoli 415V - ceblau newydd wedi'u gosod rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Hanfodol a'r Bwrdd Gwasanaethau Adweithydd (wedi'u cysylltu, ac yn barod i'w terfynu ym mis Ionawr 2022).

## Prosiect Gwaredu Isadeiledd
## Adeilad Heysham

Mae tua 5.5 tunnell o wastraff wedi'i symud o'r adeilad. Bydd y gwaith bylchu aer yn dechrau dros yr ychydig fisoedd nesaf, gan anelu at ddyddiad dymchwel ym mis Mehefin 2022.







### Gweithrediadau Maentwrog

Cwympodd 1077.3mm o law rhwng 1 Awst 2021 a 31 Ionawr 2022.

Cynhyrchwyd 34.0 Gigawat o drydan adnewyddadwy bob awr yn ystod yr un cyfnod, yn erbyn y targed o 33 Gigawat bob awr.

## Diweddariad Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox

**Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae Magnox wedi cyfrannu £151,001 i'r cymunedau lleol sy'n amgylchynu Wylfa, gyda £125,000 pellach o gyllid uniongyrchol gan yr NDA.**

Mae **Menter Amlwch** wedi derbyn £50,000 gan Magnox i ariannu swydd Rheolwr Busnes dros gyfnod o ddeunaw mis. Bydd y swydd yn hunangynhaliol ar ôl hynny. Bydd y Rheolwr Busnes yn cefnogi Y Llofft ym Mhorthladd Amlwch i ddatblygu i fod yn gaffi / bistro o ansawdd, i sefydlu a rheoli hwb cymunedol / caffi atgyweirio, ac i gefnogi a datblygu mentrau cymunedol a phrosiectau newydd.

### Siop Cwmni Cymuned Amlwch

Yn 2017, derbyniodd Cwmni Cymuned Amlwch £717 o gymorth ariannol Magnox i brynu arwyddion a gosodiadau siop, er mwyn helpu'r gwirfoddolwyr i sefydlu siop gymunedol. Ers hynny, mae'r siop wedi mynd o nerth i nerth ac wedi ehangu i adeilad mwy. Cyfrannodd Magnox £1,000 tuag at brynu a gosod drws a ffenestri newydd. Roedd hyn yn ofyniad ar gyfer gwella awyru a chynyddu diogelwch gwirfoddolwyr a chwsmeriaid, a hwyluso system un ffordd i gadw at reoliadau Covid-19.

### Cefnogi aelodau ifanc ein cymunedau lleol trwy gymorth ariannol cymydog da

Mae'n wych gweld cymaint o bobl ifanc yn cael eu hannog i gadw'n heini a chymryd rhan mewn chwaraeon tîm, sy'n darparu manteision cymdeithasol, corfforol ac iechyd meddwl a llesiant amlwg iddynt. Yn ddiweddar, mae Magnox wedi cefnogi adran iau Clwb Pêl-droed Bae Cemaes i brynu offer hyfforddi ychwanegol; prynodd plant iau Clwb Pêl-droed Bae Trearddur siacedi hyfforddi brand Magnox; ac fe brynodd tîm pêl-droed iau Derwin o Lanfair PG hefyd gitiau hyfforddi gaeaf brand Magnox.



*Chwaraewyr iau Clwb Pêl-droed Bae Cemaes*




### Cyllid uniongyrchol NDA:

Derbyniodd **Parc Gwyddoniaeth Menai** £375,000 dros dair blynedd i gefnogi tair rôl newydd sy'n rhan o Brosiect Gwelliant Egni Economaidd - Swyddog Datblygu Sector Niwclear, Swyddog Datblygu Prosiect Allgymorth STEM a Swyddog Datblygu Sector Carbon Isel.

Bydd y tair swydd newydd yn darparu'r gallu i hwyluso a hybu cyfleoedd economaidd ac ymchwil ar draws y rhanbarth. Mae'r prosiect hwn hefyd yn cynnwys datblygu rhaglen allgymorth STEM, i'w rhedeg mewn partneriaeth â STEM Gogledd.

**Grŵp Llandrillo Menai (GLLM), LabSTEM**
Prosiect £2.2m yw LabSTEM i ailwampio, uwchraddio ac ehangu labordai STEM. Derbyniodd GLLM gymorth ariannol NDA gwerth £386,034 i'w helpu nhw i greu labordai newydd mewn gofod sydd wedi'i addasu ar gyfer dibenion gwahanol ar gampws Llangefni, chwe labordy gwyddonol rhwng campysau Pwllheli a Dolgellau, ac un gweithdy STEM ar safle Marian Mawr, Dolgellau. Bydd y gwaith ar gampws Dolgellau yn cael ei orffen yn hwyrach eleni.

**Diweddariad ar brosiectau a ariannwyd yn flaenorol:**

Mae **Prosiect Ynni'r Llanw Morlais, Menter Môn**, wedi derbyn cyfanswm o £900,000 mewn cymorth ariannol gan yr NDA ers 2016. Ym mis Rhagfyr 2021, cyrhaeddodd y prosiect garreg filltir bwysig, pan dderbyniwyd caniatâd cynllunio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith adeiladu ar y tir, mewn paratoad ar gyfer y gwaith ar y môr, a sicrhawyd trwydded forol gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Dywedodd Gerallt Llewelyn Jones, Cyfarwyddwr Morlais: "Rydym yn falch iawn o fod wedi sicrhau caniatâd gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r prosiect. Daw'r penderfyniad ar ôl blynyddoedd lawer o waith caled ac ymgynghori, rydym yn edrych ymlaen yn awr at symud i'r cam nesaf ac at sicrhau bod y prosiect yn dod yn realiti.

"O'r diwrnod cyntaf, ein nod oedd gwneud yn siŵr bod y prosiect hwn yn dod â buddion economaidd lleol o ran swyddi, hyfforddiant a chyfleoedd cadwyn gyflenwi. Mae Morlais yn eiddo ac yn cael ei redeg yn lleol – mae hyn yn golygu y byddwn yn sicrhau bod y buddion hynny'n dod yn ôl i'n cymunedau lleol, ni fyddem wedi gallu cyrraedd y cam hwn heb gefnogaeth barhaus Magnox a'r NDA."

**Am fwy o wybodaeth a'r newyddion diweddaraf o Wylfa, ewch i:**

https://www.gov.uk/government/collections/our-sites
https://twitter.com/magnoxsites
https://www.linkedin.com/company/magnox
https://www.flickr.com/photos/magnoxsites